


# Urdd Gobaith Cymru



**Polisi a Chanllawiau Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol**

**Fersiwn 10**

**Cyhoeddwyd: Ebrill 2023**

## Canllawiau Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol

### 1. Cyflwyniad

1.1. Dylai'r Urdd ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i dynnu sylw at waith yr Urdd ledled Cymru, a'r cyfleoedd mae'r Urdd yn ei roi i blant a phobl ifanc drwy'r iaith Gymraeg. Mae'r cyfryngau cymdeithasol hefyd yn fodd i anfon pobl i wefan yr Urdd i ddarganfod mwy am yr hyn a gynigiwn. Mae'n bwysig bod yr Urdd yn fywiog ar y cyfryngau cymdeithasol, ac i'r diben hynny dylai'r Urdd fod yn edrych am sgysiau ar y we sy'n crybwyll ein gwaith, gan ymateb iddyn nhw lle mae hynny'n briodol.

1.2. Y gynulleidfa darged yw:  
Pobl ifanc (14+)  
Rhieni  
Athrawon/arweinyddion  
Pobl ddylanwadol e.e. gwleidyddion/partneriaid  
Ysgolion

Mae rhai cyfryngau cymdeithasol yn fwy addas ar gyfer rhai cynulleidfaoedd na'i gilydd a dylid ystyried hyn wrth eu defnyddio

1.3. Dylid cadw mewn cof taw dyma'r oedrannau ar gyfer y cyfryngau amrywiol:

16+ i ddefnyddio WhatsApp a LinkedIn  
13+ Facebook, Instagram, Snapchat, Twitter a TikTok  
Dim rhwystr oed ar YouTube ond rhaid bod yn 13 i gael cyfrif

### Egwyddorion Craidd

1.4. Mae gan yr Urdd Swyddog Marchnata Digidol sy'n gyfrifol am gyfrifon canolog yr Urdd ac am gynghori staff ar ddefnydd o'r cyfrifon cymdeithasol.

1.5. Cyn cychwyn cyfri o'r newydd dylid pasio hyn gyda'r Swyddog Marchnata Digidol i sicrhau taw dyma'r cyfrwng gorau i'r gynulleidfa, nad oes cyfri yn bodoli'n barod neu fod hen gyfri mewn bodolaeth gan gyn aelod o staff.

1.6. Wrth greu cyfri o'r newydd rhaid sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n gyson gyda'r math cywir o ddeunydd. Nid oes rheol amllder ond mae modd dweud fod 'tweet' angen cael effaith o fewn 8 munud o'i gyhoeddi i gael sylw. Gellir cael cyngor am amllder gan y Swyddog Marchnata Digidol.

1.7. Mae'n bwysig bod un gofrestr ganolog o'r holl fanylion logio a chyfrineiriau cyfrifon yr Urdd. Dylech anfon holl fanylion logio a chyfrineiriau at y Swyddog Marchnata Digidol.

1.8. Dylid sicrhau fod chyfrineiriau yn cael ei newid yn rheolaidd.

- 1.9. Rhaid rhoi'r cyfrifoldeb o'r cyfri i un unigolyn sef y 'gweinyddwr'.
- 1.10. Gellir nodi fod sawl un o fewn yr adran yn gallu defnyddio'r cyfri ond dylai'r cyfrifoldeb gweinyddol i fod ar un aelod o staff fel bod ymateb yn digwydd yn brydlon.
- 1.11. Mae cyfrifoldeb ar weinyddwr i sicrhau bod aelod arall o staff yn gofalu am y dudalen yn absenoldeb y gweinyddwr ar wyliau/salwch.
- 1.12. Dylid cyfeirio sylwadau negyddol a ymddangosir ar safleoedd cyfyngau cymdeithasol at y Cyfarwyddwr perthnasol er mwyn penderfynu sut dylid/a ddylid ymateb.
- 1.13. Ni ddylai cyfrifon yr Urdd ddilyn ffrindiau'r gweinyddwyr.
- 1.14. Mae cyfryngau cymdeithasol yn fforymau cyhoeddus a rhaid bod yn ofalus iawn. Fe fydd yr Urdd yn ymdrin yn llym ag unrhyw sefyllfa a all ddod ag anfri ar y Mudiad drwy fod staff neu wirfoddolwyr yn gwneud sylwadau amhroffesiynol sydd ddim yn gydnaws a'u swyddogaeth, neu hyd yn oed yn enllibus. Gall hyn gynnwys camau disgyblu a allai beryglu eich cyflogaeth gyda'r Urdd. (*Gweler Llawlyfr Staff Urdd Gobaith Cymru adran 32 a 37*)
- 1.15. Mae yn benderfyniad personol os yw staff a gwirfoddolwyr am ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn eu bywyd personol. Dylai staff a gwirfoddolwyr fod yn ofalus ac yn wylidwrus wrth edrych ar ac uwchlwytho cynnwys i unrhyw wefan cyfryngau cymdeithasol. Dylid ystyried os gallai'r cynnwys gyfaddawdu ffydd y cyhoedd ynddo chi, yn anghyfreithlon, creu camargraff neu gael ei hystyried yn aflonyddu/tarfu ar eraill.
- 1.16. Gall unrhyw ddeunydd personol sydd yn cael eu rhannu ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol personol staff a gwirfoddolwyr gyrraedd cynulleidfa ehangach, yn anodd i'w dileu neu reoli pa mor eang. Dylai staff adolygu eu gosodiadau preifatrwydd o'u cyfrifol cyfryngau cymdeithasol i ddiogelu eich enw da chi a'r Urdd.
- 1.17. Ni ddylid rannu gwybodaeth gyfrinachol/gwybodaeth fewnol ar gyfrifon cymdeithasol
- 1.18. Ni ddylid datgelu barn personol ar negeseuon ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol yr Urdd.
- 1.19. Ni ddylid ymuno mewn sgysiau personol (neges uniongyrchol neu neges 'messenger') rhwng pobl a'i gilydd yn enwedig pobl ifanc ar faterion sydd ddim yn ymwneud a gwaith neu brosiectau'r Urdd.
- 1.20. Mae gan yr Urdd yn ganolog hawl i rannu neges neu ar gyfrifon Urdd.
- 1.21. Mae gan yr Urdd yn ganolog hawl i addasu/diddymu unrhyw sylw sydd yn cael ei roi ar gyfrifon Urdd.

- 1.22. Os ydych yn cynnwys rhywbeth na ddylech/derbyn sylw negyddol am rywbeth ydych chi wedi cynnwys ar wefan gymdeithasol, rhowch wybod i'r Swyddog Marchnata Digidol.

## 2. Addasrwydd

- 2.1. Mae llinell denau iawn rhwng yr hyn sy'n addas i'w gyhoeddi yn enw'r Urdd a'r hyn nad sy'n addas. Mae popeth sydd ar bob sianel o gyfryngau cymdeithasol yn enw'r Urdd yn adlewyrchu ar y mudiad. Dylai cyfrifon personol fod ar wahân i gyfrifon yr Urdd. Fel canllaw, dylai popeth sy'n cael ei roi ar wefannau cymdeithasol yn enw'r Urdd fod yn bositif.
- 2.2. Ni ddylid cynnwys sylwadau allai gael eu dehongli yn hiliol/tueddiadau gwleidyddol ar gyfrifon Urdd.
- 2.3. Dylid cofio hefyd bod yr hyn sydd ar gyfrif personol staff a gwirfoddolwyr yr Urdd yn gallu adlewyrchu ar y mudiad hefyd, a dylid bod yn ddoeth wrth drafod digwyddiadau yn y gweithle, cydweithwyr neu wirfoddolwyr ar gyfrifon personol hefyd. (*Gweler Llawlyfr Staff Urdd Gobaith Cymru, adrannau 31, 32, 37*).
- 2.4. Gall staff gysylltu eu hunain gyda'r Urdd ar gyfrifon personol, ond dylid nodi yn glir ar gyfrifon personol mai barn bersonol yw'r hyn sydd yn cael ei rannu ac nid barn y cyflogwr,
- 2.5. Dylech fod yn ofalus wrth dderbyn fel ffrindiau personol bobl (gan gynnwys aelodau) sy'n ymwneud â chi yn y gwaith yn unig. Mae cyngor pellach ar hyn yn cael ei ddarparu i staff yr Urdd ar wahân. *Gweler Llawlyfr Staff Urdd Gobaith Cymru, adran 32*.
- 2.6. Ni ddylid enwi aelodau unigol dan 16 oed ar y cyfrifon cymdeithasol mewn ffurf 'tag'.

## 3. Iaith

- 3.1. Mae sicrhau parhad yr iaith Gymraeg fel iaith sy'n ffynnu yn un o ddyheadau'r Urdd. Credwn mai dim ond trwy fuddsoddi mewn creu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ymhlith plant a phobl ifanc y bydd hynny'n digwydd.
- 3.2. Rhaid defnyddio'r iaith sy'n addas i'r cyfrwng a'r gynulleidfa.
- 3.3. Rhaid i negeseuon a phostiadau ar y cyfryngau cymdeithasol roi blaenoriaeth i'r Gymraeg.
- 3.4. Mae achosion pam mae angen rhannu neu ail drydar neges uniaith Saesneg. Gellir gwneud hyn drwy sicrhau fod y Gymraeg yn cael ei ddefnyddi i dynnu sylw i'r neges.

## Defnydd

- 3.5. Ceisiwch gadw llygaid ar gynnwys safleoedd Urdd eraill yr Urdd gan rannu, gwneud sylw ar neu 'hoffi' eu sylwadau gan fod hwn yn golygu y bydd y postiodau yn cyrraedd fwy o unigolion.
- 3.6. Ni ddylid ymuno mewn sgwrs 'chat' nad sydd yn berthnasol i waith neu brosiect Urdd.
- 3.7. Mewn achosion lle derbynnir negeseuon anwedus, aflonyddu dilornus ar unrhyw gyfrifon cymdeithasol yr Urdd, dilynir y Polisi Gwrth Fwlio a delio ag Aflonyddu.
- 3.8. Os oes gan aelodau, unigolion o'r cyhoedd, mudiadau neu ysgolion pryderon, sylwadau, cwynion gofynnir iddynt gysylltu yn gwrtais ac yn ffurfiol, yn uniongyrchol at y swyddog dan sylw neu i ddilyn trefn Polisi Cwynion yr Urdd (<http://www.urdd.cymru/cy/amdanom-ni/polisiau-urdd/polisi-cwynion/> )
- 3.9. Mae '*hashtag* #' yn bwysig. Dylid cytuno o fewn eich rhanbarth/adran/prosiect yr hashtag addas er mwyn cysondeb a sicrhau tebygolrwydd trendio dros gyfnod o amser.
- 3.10. Dylid manteisio ar '*hashtags* neu gyfrifon poblogaidd swyddogol sydd yn hyrwyddo'r Gymraeg e.e #yagym. Cysylltwch â'r Adran Gyfathrebu ar gyfer y rhestr gyfredol.
- 3.11. Linciau byr – Os eisiau linc byr i dudalen gallwch holi'r adran gyfathrebu am friendly URL i'r dudalen rydych eisiau rhannu. Bydd hyn yn galluogi i ni rannu lincs mwy perthnasol i'r brand e.e. urdd.cymru/chwaraeon yn hytrach na e.e. bit.ly/chwaraeon.
- 3.12. Dylid pasio unrhyw ffilmiau addas i'r Adran Gyfathrebu er mwyn eu llwytho.
- 3.13. Os oes aelod o staff am gychwyn '*Blog*' yn enw'r gwaith dylid rhoi gwybod i Adran Gyfathrebu Urdd.

## 4. Cystadlaethau

- 4.1. Ni chaniateir gofyn i bobl rannu tudalen, statws nac unrhyw gynnwys er mwyn ceisio mewn cystadleuaeth. Ni chaniateir gofyn i bobl dagio ffrind er mwyn ceisio, na gofyn i bobl 'hoffi' tudalen er mwyn ceisio. Gallwn ANNOG pobl i hoffi ein tudalen, rhannu ein cynnwys a thagio ffrindiau ond gall y rhain ddim bod yn ofynion ar gyfer cystadlu. Gallwn greu cystadlaethau sy'n gofyn i bobl e.e. ateb cwestiwn cwis, enwi cynnyrch newydd, neu ddyfalu faint o farblis sydd mewn jar.

## 5. Lluniau & Fideos

- 5.1. Rhaid bod yn ofalus pan yn defnyddio unrhyw luniau ar y cyfryngau cymdeithasol.
- 5.2. Mae gan yr Urdd Ffurflen Iechyd safonol ar gyfer pob gweithgaredd a phob adran sy'n nodi wrth i aelodau'r Urdd cofrestru, maent yn cytuno i'w lluniau cael eu tynnu ac i glipliau fideo gael eu gwneud, oni bai eu bod yn nodi yn wahanol.
- 5.3. Os nad yw caniatâd yn cael ei dderbyn i luniau cael eu tynnu ac i glipliau fideo gael eu gwneud, rhaid parchu'r penderfyniad a sicrhau nad yw'r aelod yn cael ei ddewis mewn unrhyw ddeunydd lluniau neu glipliau fideo.
- 5.4. Pan dynnir lluniau neu fideo mewn gweithgaredd dylid ceisio cael caniatâd pellach gan rieni.
- 5.5. Bydd Urdd Gobaith Cymru yn cadw'r holl luniau a chlipiau fideo ar system ganolog zenfolio sydd o dan reolaeth yr adran gyfathrebu. Defnyddir lluniau ar gyfer cyhoeddiad a gwaith hyrwyddo amrywiol.
- 5.6. Dylid sicrhau fod unrhyw luniau safonol a dynnir gan unrhyw adran o'r Urdd ac sydd wedi cael caniatâd gael eu uwch lwytho i system ganolog yr Urdd ar – zenfolio. Mae system ffeilio bwrpasol ac enw defnyddiwr gan bob adran.
- 5.7. Pan gomisiynir ffotograffydd/cynhyrhydd fideo penodol dylid sicrhau fod caniatâd ysgrifenedig gan rieni i unrhyw blant / pobl ifanc o dan 14 oed.
- 5.8. Ni ddylid defnyddio lluniau na chlipiau fideo o'n haelodau mewn gwisgoedd amhriodol. Er enghraifft, dillad nofio, dillad sydd â geiriau / sloganau dilornus neu anwedus.
- 5.9. Dylid sicrhau mewn cystadlaethau / digwyddiadau cyhoeddus e.e. Eisteddfodau Cylch a Sir/ cystadlaethau chwaraeon fod arwyddion pwrpasol ar y safle yn nodi bod lluniau/fideos yn cael eu tynnu yn y digwyddiad gall gael eu defnyddio at ddibenion hyrwyddo.
- 5.10. Dylid annog rhieni a chefnogwyr i ddefnyddio ein gwasanaeth sy'n darparu lluniau o'n gweithgareddau e.e. Eisteddfod / Chwaraeon yn unol a'r cytundeb gyda'r cwmni.
- 5.11. Ni fydd gan Urdd Gobaith Cymru rheolaeth o unrhyw luniau a/neu glipliau fideo unwaith iddynt ymddangos yn gyhoeddus.
- 5.12. Nid oes gan yr Urdd reolaeth dros unrhyw luniau a/neu glipliau fideo a dynnir gan aelodau'r cyhoedd.

## Gwirfoddolwyr / Adrannau ac Aelwydydd

- 5.13. Os sefydlir cyfrifon cymdeithasol gan wirfoddolwyr er enghraifft tudalennau 'Facebook' er enghraifft i Aelwyd, clwb chwaraeon, gofynnir iddynt ddilyn yr arfer da a nodir yn y polisi hwn. Argymhellir bod y Swyddog Urdd leol yn weinyddwr ar dudalennau 'Facebook' neu gyfrifon cymdeithasol eraill hefyd.

Polisi a Chanllawiau Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol

Fersiwn 10

Ebrill 2023

Arwyddwyd



Sian Lewis

**Prif Weithredwr**